Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor

Yr Eglwys yng Nghymru
The Church in Wales

**DRAFFT f1.9 ☩ DRAFT v1.9**

# Cyfansoddiad Cynhadledd Esgobaeth Bangor

mabwysiadwyd yng Nghynhadledd yr Esgobaeth
(DYDDIAD)

# The Constitution Of The Bangor Diocesan Conference

as adopted at the Diocesan Conference
(DATE)

Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor

CYNNWYS


ERTHYGL 1: CYFFREDINOL....3

ERTHYGL 2: AELODAETH....3

ERTHYGL 3: SWYDDOGION Y GYNHADLEDD....5

ERTHYGL 4: TRAFODION A CHYFARFODYDD....6

ERTHYGL 5: PWERAU A DYLETSWYDDAU....7

ERTHYGL 6: ENWEBIADAU AC ETHOLIADAU....8

ERTHYGL 7: BYRDDAU A PHWYLLGORAU....10

ERTHYGL 8: AMRYWIOL a DIWYGIAD....13

ATODIAD I: RHEOLAU SEFYDLOG O GYNHADLEDD ESGOBAETH BANGOR....14

## ERTHYGL 1: CYFFREDINOL

1. Mae Cynhadledd Esgobaeth Bangor ("y Gynhadledd") wedi'i gyfansoddi a'i lywodraethu gan Bennod IV Cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru. Mae'n ddarostyngedig i Gorff Llywodraethu yr Eglwys yng Nghymru a bydd yn cydymffurfio â'i orchmynion a'i gyfarwyddiadau ac yn eu cyflawni.

*(Cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru [CCiW o hyn ymlaen]: IV.A.2, 3)*

2. Bydd y Gynhadledd yn cael ei hethol bob tair blynedd. Bydd y cyfnod tair blynedd yn cael ei gyfrif o 1 Gorffennaf yn y flwyddyn y cynhelir etholiad, am dair blynedd. Dylid dehongli cyfeiriadau yn y cyfansoddiad hwn at flwyddyn ac at ddyddiadau neu gyfnodau yn ystod blwyddyn fel cyfeiriadau at gyfnod tair blynedd o'r fath oni bai y nodir i'r gwrthwyneb.

## ERTHYGL 2: AELODAETH

3. Bydd y Gynhadledd yn cynnwys Esgob yr Esgobaeth, ac aelodau clerigol, ex officio, enwebedig, cyfetholedig ac etholedig.

*(CCiW: IV.A.6)*

4. Bydd nifer yr aelodau lleyg bob amser yn fwy na'r aelodau clerigol o ran nifer.

*(CCiW:IV A.9b)*

5. Ni fydd nifer yr aelodau ex officio, cyfetholedig ac enwebedig gyda'i gilydd yn fwy nag un chweched o gyfanswm yr aelodau.

*(CCiW: IV.A.9a)*

6. Bydd holl aelodau'r Gynhadledd yn gymunwyr a dros 16 mlwydd oed.

*(CCiW: IV A.7)*

Bydd Ysgrifennydd y Gynhadledd yn sicrhau bod trefniadau diogelu priodol ar waith ar gyfer unrhyw aelodau o'r Gynhadledd sy'n iau na 18 mlwydd oed, neu sy'n oedolion agored i niwed.

7. Bydd yr Esgob, neu yn ei absenoldeb ei gomisari wedi'i awdurdodi yn arbennig ganddo yn ysgrifenedig, yn aelod o'r Gynhadledd.

*(CCiW: IV A.5)*

8. Aelodau Clerigol

(a) Bydd aelodau clerigol y Gynhadledd yn cynnwys pob clerigwr cyflogedig a phob clerigwr arall yn yr esgobaeth sy'n meddu ar drwydded gan yr Esgob.

*(CCiW: IV.A.8.1)*

(b) Bydd aelodaeth o'r Gynhadledd yn terfynu yn achos unrhyw glerigwr cyflogedig o'r fath pan fydd yn ymddeol o'r offeiriadaeth gyflogedig, ac yn achos pob clerigwr arall o'r fath sy'n meddu ar drwydded gan yr Esgob, ar adeg terfynu bod yn ddeiliad unrhyw benodiad fel clerigwr yn yr esgobaeth, ildio neu ddiddymu'r drwydded neu gyrraedd saith deg oed, pa bynnag un sy'n digwydd gyntaf.

*(CCiW: IV.A.8.2)*

9. Aelodau Ex Officio

Aelodau Ex Officio y Gynhadledd fydd:

Canghellor yr Esgobaeth
Cadeirydd Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth
Cadeirydd Bwrdd Persondai'r Esgobaeth
Aelodau lleyg y Bwrdd Llywodraethu sy'n byw yn yr Esgobaeth
Llywydd Undeb Mamau yr Esgobaeth
Ymddiriedolwyr lleyg Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth nad ydynt yn aelodau fel arall
Swyddogion arweiniol y byrddau a'r cynghorau esgobaethol fel y nodir yn yr atodlen a gymeradwywyd gan Bwyllgor Sefydlog Cynhadledd yr Esgobaeth

10. Aelodau Enwebedig

Os yw'n ofynnol, gall hyd at chwech o bobl, clerigol neu leyg, gael eu henwebu gan yr Esgob. Bydd y Pwyllgor Sefydlog yn cymeradwyo pob enwebiad trwy bleidlais fwyafrifol syml.

11. Aelodau cyfetholedig

Gall y Gynhadledd, os yw'n ofynnol, gyfethol dim mwy na chwech o bobl, clerigol neu leyg.

12. Aelodau lleyg

(a) Bydd yr holl Weinidogion Lleyg Trwyddedig sy'n gwasanaethu yn yr esgobaeth yn aelodau o'r Gynhadledd yn awtomatig.

(b) Erbyn 30 Mehefin fan bellaf ym mlwyddyn olaf y cyfnod o dair blynedd, bydd pob Cyngor Ardal Offeiriadaeth yn ethol unigolion lleyg o'r Ardal Offeiriadaeth honno i'r Gynhadledd. Bydd nifer yr aelodau lleyg a etholir fel y cyfarwyddir gan y Pwyllgor Sefydlog a bydd yn ddau unigolyn lleyg o bob Ardal Offeiriadaeth o leiaf. Bydd aelodau o'r fath yn cychwyn eu swyddogaeth ar 1 Gorffennaf ac yn meddu ar swyddogaeth o'r fath am dair blynedd.

(c) Yn ogystal â'r aelodau lleyg a etholir yn unol â pharagraff 12 (b), bydd gan bob Ardal Offeiriadaeth hawl hefyd i ethol un aelod lleyg ychwanegol o dan 30 oed i fod yn aelod o'r Gynhadledd.

(c) Bydd yr aelodau lleyg yn cael eu hethol yng nghyfarfod festri blynyddol yr Ardal Offeiriadaeth, a bydd etholiad o'r fath o dan weinyddiaeth Arweinydd yr Ardal Offeiriadaeth.

(d) Mae'n rhaid i bob ymgeisydd i gael ei ethol i'r Gynhadledd gael ei enwebu gan un aelod a'i eilio gan aelod arall o gofrestr etholiadol yr Ardal Offeiriadaeth y caiff ei enwebu i'w chynrychioli.

(e) Os bydd nifer annigonol o aelodau lleyg yn cael eu henwebu gan unrhyw Ardal Offeiriadaeth, yna bydd Arweinydd yr Ardal Offeiriadaeth yn cyflwyno enwebiadau addas i'r Pwyllgor Sefydlog a all gymeradwyo aelodau ychwanegol o blith lleygwyr yr Ardal Offeiriadaeth i lenwi'r swyddi gwag.

(f) Bydd Arweinydd yr Ardal Offeiriadaeth yn hysbysu Ysgrifennydd y Gynhadledd am enwau, cyfeiriadau, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost yr aelodau lleyg a etholir o'u Hardaloedd Offeiriadaeth.

(h) Ac eithrio lle mae 12(e) uchod yn berthnasol, gellir llenwi swyddogaethau sy'n digwydd dod yn wag yn ystod unrhyw gyfnod tair blynedd mewn unrhyw Gyngor Ardal Offeiriadaeth a gynullir yn briodol. Bydd unigolyn sy'n llenwi swyddogaeth wag o'r fath yn camu o'r neilltu ar ddiwedd y cyfnod o dair blynedd.

13. Bydd pob aelod lleyg o'r Gynhadledd, cyn gweithredu yn y swyddogaeth honno, yn llofnodi datganiad ar y ffurf ganlynol mewn llyfr i'w gadw at y diben hwnnw gan yr Ysgrifennydd:

"Rwyf i, ……………………………… o .................................................. yn datgan o ddifrif drwy hyn fy mod yn gymunwr dros un ar bymtheg mlwydd oed, ac yn gymwys i fod yn aelod o Gynhadledd Esgobaeth Bangor, ac nad wyf yn perthyn i unrhyw gorff crefyddol nad yw mewn cymundeb â'r Eglwys yng Nghymru."

*(CCiW: IV A.10)*

## ERTHYGL 3: SWYDDOGION Y GYNHADLEDD

14. Yr Esgob fydd Llywydd Cynhadledd yr Esgobaeth.

*(CCiW: IV A.12 (1))*

15. Os bydd yr Esgob yn marw, yn ymddiswyddo, neu'n analluog, neu'n absennol heb benodi comisari at y diben, Llywydd y Corff Llywodraethu, neu os bydd yn marw, yn ymddiswyddo, neu'n analluog, esgob yr esgobaeth sydd nesaf yn nhrefn blaenoriaeth fydd y Llywydd, neu bydd yn penodi yn ysgrifenedig comisari a fydd yn Llywydd; bydd Llywydd o'r fath heb ragfarnu hawliau'r Archesgob, yn arfer yr holl bwerau a arferir fel rheol gan yr Esgob yn y Gynhadledd.

*(CCiW: IV A.12 (2))*

16. Gall y Pwyllgor Sefydlog benodi hyd at ddau o aelodau clerigol a dau o aelodau lleyg o blith ei aelodau i weithredu fel Is-lywyddion y Gynhadledd ar gyfer y cyfnod tair blynedd hwnnw ac a fydd yn rhannu â'r Llywydd o ran cadeirio cyfarfodydd y Gynhadledd a'i Phwyllgorau Sefydlog fel y'i gwahoddir gan y Llywydd.

17. Bydd y Gynhadledd yn penodi Ysgrifennydd ar gyfer y fath dymor a benderfynir gan y Gynhadledd.

*(CCiW: IV A.22)*

18. Bydd Ysgrifennydd y Gynhadledd yn Ysgrifennydd ex officio i'r Pwyllgor Sefydlog, ac i Fwrdd Enwebu'r Esgobaeth.

## ERTHYGL 4: TRAFODION A CHYFARFODYDD

19. Yn amodol ar ddarpariaeth Deddf yr Eglwys yng Nghymru 1914, cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru ac unrhyw reoliadau a wneir gan y Corff Llywodraethu, bydd gan Gynhadledd yr Esgobaeth y grym i wneud rheoliadau ar gyfer:

(a) ei chynnull;
(b) ei materion a'i thrafodion;
(c) cyfansoddiad, pwerau a gweithdrefnau unrhyw un o'i bwyllgorau; a
(d) hyd aelodaeth.

*(CCiW: IV A.11)*

20. Bydd pob un o weithredoedd y Gynhadledd y cydsynnir iddi gan ei Llywydd a chan fwyafrif o'r clerigwyr a'r lleygwyr sy'n bresennol ac yn pleidleisio ar y cyd, neu, os y'i gorchmynnir gan ddeg ar hugain o aelodau yn codi yn eu lleoedd, gan fwyafrif o'r aelodau clerigol ac o'r aelodau lleyg sy'n bresennol ac yn pleidleisio yn ôl urddau, yn rhwymo'r Gynhadledd a holl aelodau eraill yr Eglwys yng Nghymru yn yr esgobaeth.

*(CCiW: IV A.13)*

21. Os bydd y Llywydd yn gwrthod cydsynio i gynnig, bydd yn gyfaddas i unrhyw aelod wneud y cynnig eto yng nghyfarfod blynyddol nesaf y Gynhadledd, pan, os caiff ei basio â mwyafrif o ddwy ran o dair o'r aelodau clerigol ac o'r aelodau lleyg sy'n bresennol ac yn pleidleisio yn ôl urddau orchmynion, bydd y cynnig yn cael ei atgyfeirio i Synod Talaith yr Eglwys yng Nghymru, y bydd ei benderfyniad yn rhwymo'r Gynhadledd a holl aelodau eraill yr Eglwys yng Nghymru yn yr esgobaeth.

*(CCiW: IV A.14)*

Rheoliadau yn ymwneud â Materion a Thrafodion

22. Bydd dyddiad a lleoliad holl gyfarfodydd y Gynhadledd yn cael eu penderfynu gan y Pwyllgor Sefydlog, a bydd y Gynhadledd yn cyfarfod ddim llai nag unwaith y flwyddyn.

23. Gallai cyfarfod fod yn unrhyw un o'r fformatau canlynol:

(a) Cyfarfod ffisegol;

(b) Cynhadledd fideo, cyfleuster fideo rhyngrwyd neu ddull electronig tebyg sy'n caniatáu cyfranogiad a chyfieithiad gweledol a sain ar yr un pryd;

(c) Cyfuniad o'r uchod cyn belled ag y bo pawb sy'n bresennol yn gallu siarad â phob un o'r bobl eraill sy'n bresennol ac yn gallu cael eu clywed ganddynt.

Bydd fformat holl gyfarfodydd y gynhadledd yn cael ei benderfynu gan y Pwyllgor Sefydlog.

24. Y Llywydd fydd â'r bleidlais fwrw.

*(CCiW: IV A Rhan II, 2)*

25. Bydd presenoldeb yr Esgob neu ei gomisari, neu Lywydd y Corff Llywodraethu, neu esgob yr esgobaeth sydd nesaf yn nhrefn blaenoriaeth neu ei gomisari, ynghyd ag un rhan o bedair o'r aelodau clerigol ac un rhan o bump o'r aelodau lleyg, yn angenrheidiol i gyfansoddi cyfarfod y Gynhadledd.

*(CCiW: IV A Rhan II, 5)*

26. Ni fydd methiant unrhyw Ardal Offeiriadaeth i ddychwelyd aelodau yn atal y Gynhadledd rhag bwrw ymlaen â chyflawni busnes.

*(CCiW: IV A Rhan II, 6)*

Rheoliadau yn ymwneud â Chynnull Cyfarfod Arbennig

27. Gall yr Esgob, yn ôl ei ddisgresiwn ei hun, a bydd, ar gais yn ysgrifenedig wedi'i lofnodi gan ddim llai nag un rhan o bedair o aelodau'r Gynhadledd, gyfarwyddo'r Ysgrifennydd i gynnull Cyfarfod Arbennig o'r Gynhadledd.

*(CCiW: IV A Rhan I, 1.1)*

28. Bydd yr Ysgrifennydd wedi hynny yn cynnull Cyfarfod Arbennig o'r fath drwy hysbysiad yn ysgrifenedig, gan ddatgan y busnes i'w gyflawni wedi hynny.

*(CCiW: IV A Rhan I, 1.2)*

29. Bydd yr hysbysiad o Gyfarfod Arbennig o'r fath yn cael ei anfon i bob aelod o leiaf saith diwrnod cyn y diwrnod a drefnwyd ar gyfer cynnal y cyfarfod.

*(CCiW: IV A Rhan I, 1.3)*

30. Ni fydd unrhyw fusnes yn cael ei gyflawni mewn Cyfarfod Arbennig ac eithrio'r hyn a nodir yn yr hysbysiad yn cynnull y cyfarfod hwnnw.

*(CCiW: IV A Rhan I, 1.4)*

## ERTHYGL 5: PWERAU A DYLETSWYDDAU

31. Yn amodol ar gyfarwyddyd a rheolaeth y Corff Llywodraethu, bydd Cynhadledd yr Esgobaeth yn rheoli ei materion ei hun a'i heiddo ei hun, os oes rhai, ac unrhyw symiau o arian a allai gael eu rhoi yn ei gofal i'w dosbarthu gan Gorff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru, yn amodol ar unrhyw reoliadau a wneir gan y Corff Cynrychioliadol neu unrhyw amodau a orfodir ganddo neu ar unrhyw ymddiriedaethau sy'n effeithio'r Corff hwnnw.

*(CCiW: IV A.15)*

32. Nid oes gan y Gynhadledd yr hawl i basio unrhyw gynnig na gwneud unrhyw benderfyniad ar fater yn ymwneud â disgyblaeth, ffydd, neu ddefodaeth.

*(CCiW: IV.A.4)*

33. Os, ym marn yr Esgob a'r Gynhadledd, yw Ardal Offeiriadaeth am unrhyw reswm wedi rhoi'r gorau i fod yn weithredol, bydd unrhyw weithred (os o gwbl) ag y mae'r amgylchiadau yn ei chyfiawnhau yn cael ei chyflawni o dan Bennod IV D adran 2 Cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru.

*(CCiW: IV A.19)*

34. Bydd gan y Gynhadledd, neu ei Phwyllgor Sefydlog os caiff ei rymuso felly gan y Gynhadledd, y grym i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw Ardal Offeiriadaeth gyfrannu at wariant gwirioneddol a/neu ragweledig yr esgobaeth ac wrth arfer grym o'r fath bydd yn ystyried unrhyw sylwadau a wneir iddi.

*(CCiW: IV A.20 (1))*

35. Bydd gan y Gynhadledd y grym i ddarparu, os bydd unrhyw Ardal Offeiriadaeth yn methu â chyflawni unrhyw ymrwymiad y mae wedi ei wneud gyda'r Gynhadledd, neu i dalu unrhyw swm yr aseswyd gan y Gynhadledd, neu y galwyd arni i'w dalu gan y Gynhadledd, na fydd unrhyw aelodau a etholwyd ar gyfer Ardal Offeiriadaeth o'r fath yn cael mynediad i'r Gynhadledd, ac ni fydd etholwyr cymwys Ardal Offeiriadaeth o'r fath yn cael eu caniatáu i ddychwelyd cynrychiolwyr yn ystod diffyg o'r fath.

*(CCiW: IV A.20 (2))*

36. Bydd gan y Gynhadledd y grym i reoli, newid, diddymu, neu ddisodli unrhyw reol neu reoliad a enwir gan Gyngor Ardal Offeiriadaeth, gan gynnwys cyfarfod festri, cyn belled ag gallai fod yn angenrheidiol (y bydd penderfyniad y Gynhadledd yn ei gylch yn derfynol) i ddarparu yn erbyn y gydnabyddiaeth o unrhyw egwyddor sy'n amhriodol i fuddiannau cyffredin yr Eglwys yng Nghymru yn yr esgobaeth.

*(CCiW: IV A.21 (2))*

## ERTHYGL 6: ENWEBIADAU AC ETHOLIADAU

37. Bydd aelodau etholedig y Gynhadledd yn cael eu hethol bob tair blynedd. Bydd Ysgrifennydd y Gynhadledd yn hysbysu pob Cyngor Ardal Offeiriadaeth am nifer yr aelodau y mae angen iddo eu hethol, erbyn 31 Ionawr fan bellaf yn y flwyddyn y disgwylir i etholiad gael ei gynnal.

38. Bydd Ysgrifennydd y Gynhadledd, o leiaf saith diwrnod cyn cyfarfod cyntaf pob sesiwn o'r Gynhadledd, yn paratoi a chyhoeddi rhestr o'r aelodau, a bydd y rhestr dan sylw, pan fydd wedi'i llofnodi gan yr Esgob, yn dystiolaeth bendant mai'r rhai sydd wedi eu henwi arni a neb arall yw aelodau'r Gynhadledd.

*(CCiW: IV A Rhan II, 4.1)*

39. Bydd cywirdeb rhestr o'r fath yn destun apêl i'r Canghellor.

*(CCiW: IV A Rhan ll, 4.2)*

40. Bydd y Gynhadledd, o bryd i'w gilydd, yn ethol yn briodol cynrychiolwyr yr esgobaeth i wasanaethau ar gyrff esgobaethol a thaleithiol fel sy'n ofynnol.

41. Etholiadau i Gorff Llywodraethu yr Eglwys yng Nghymru

(a) Bydd aelodau clerigol Cynhadledd yr Esgobaeth yn ethol yn flynyddol dau glerigwr i wasanaethu ar Gorff Llywodraethu yr Eglwys yng Nghymru, am y tair blynedd ddilynol.

*(CCiW: II. 4)*

(b) Bydd aelodau lleyg Cynhadledd yr Esgobaeth yn ethol yn flynyddol pedwar unigolyn lleyg i wasanaethu ar Gorff Llywodraethu yr Eglwys yng Nghymru, am y tair blynedd ddilynol.

*(CCiW: II. 4)*

(c) Pan fo'n bosibl, bydd cynrychiolaeth o bob archddiaconiaeth.

42. Etholiadau i Gorff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru
Bydd aelodau clerigol a lleyg Cynhadledd yr Esgobaeth yn ethol bob tair blynedd un clerigwr ac un unigolyn lleyg i wasanaethu ar Gorff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru.

43. Etholiadau i Goleg Etholiadol yr Eglwys yng Nghymru

(a) Bydd Cynhadledd yr Esgobaeth yn ethol bob tair blynedd chwe unigolyn lleyg ynghyd â rhestr atodol o naw o unigolion lleyg i wasanaethu fel Etholwyr Esgobol.

*(CCiW: V Rhan lll)*

(b) Bydd Cynhadledd yr Esgobaeth yn ethol bob tair blynedd chwe chlerigwr ynghyd â rhestr atodol o naw o glerigwyr i wasanaethu fel Etholwyr Esgobol.

*(CCiW: V Rhan lll)*

44. Etholiadau i Fwrdd Enwebu'r Esgobaeth

(a) Bydd y Gynhadledd yn ethol aelodau clerigol a lleyg o Fwrdd Enwebu'r Esgobaeth, ac aelodau atodol yn y modd a ddarperir yn Rheoliadau'r Corff Llywodraethu yn ymwneud â phenodiadau ac enwebiadau.

*(CCiW: IV A.18)*

(b) Bydd y Gynhadledd yn ethol bob tair blynedd dau glerigwr, ynghyd â rhestr atodol o ddeg o glerigwyr sy'n aelodau o'r Gynhadledd, i wasanaethau ar Fwrdd Enwebu'r Esgobaeth.

*(CCiW: IV A. 18; VI Rhan ll)*

(c) Bydd y Gynhadledd yn ethol bob tair blynedd tri unigolyn lleyg, ynghyd â rhestr atodol o chwech o unigolion lleyg sy'n aelodau o'r Gynhadledd, i wasanaethau ar Fwrdd Enwebu'r Esgobaeth.

*(CCiW: IV A. 18; VI Rhan ll)*

45. Etholiadau i Fwrdd Cyllid yr Esgobaeth
Bydd aelodau clerigol a lleyg Cynhadledd yr Esgobaeth yn ethol yn ôl yr angen y nifer o aelodau clerigol a lleyg sy'n ofynnol o dan gyfansoddiad Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth.

46. Etholiadau i Bwyllgor Sefydlog yr Esgobaeth
Bydd aelodau clerigol a lleyg Cynhadledd yr Esgobaeth yn ethol yn ôl yr angen y nifer o aelodau clerigol a lleyg sy'n ofynnol o dan baragraff 63.(b) isod.

Darpariaeth gyffredinol o ran etholiadau gan y Gynhadledd
47. Bydd Ysgrifennydd Cynhadledd yr Esgobaeth yn goruchwylio pob etholiad ac yn gweithredu fel swyddog canlyniadau. Gall yr Ysgrifennydd ddirprwyo rhywfaint o'r gwaith o gynnal yr etholiad neu'r cwbl, ond bydd yn dal i fod yn gyfrifol yn y pen draw am y trafodion; ni fydd unrhyw unigolyn sy'n gymwys i bleidleisio yn cymryd rhan yn y gwaith o redeg unrhyw etholiad.

48. Ddim llai na dau fis calendr cyn cyfarfod blynyddol y Gynhadledd, bydd yr Ysgrifennydd yn cyflwyno i holl aelodau urdd berthnasol y Gynhadledd hysbysiad am yr holl etholiadau sydd ar fin cael eu cynnal ac yn gwahodd enwebiadau. Bydd yr holl unigolion a enwebir yn bodloni'r meini prawf a nodir yng Nghyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru neu ddogfen lywodraethu berthnasol arall.

49. Mae'n rhaid i unrhyw unigolyn a enwebir gyflwyno datganiad o ddim mwy na 120 o eiriau yn amlinellu yr hyn y bydd yn ei gynnig i'r corff y mae'n cael ei enwebu ar ei gyfer ar unrhyw sgiliau neu brofiad perthnasol.

50. Bydd unrhyw enwebiadau ar gyfer y Corff Llywodraethu, Coleg Etholiadol yr Eglwys yng Nghymru, Bwrdd Enwebu'r Esgobaeth, Corff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru, Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth a Phwyllgor Sefydlog Cynhadledd yr Esgobaeth yn cael eu gwneud drwy urddau, hynny yw, bydd clerigwr yn cael ei gynnig a'i ethol gan y clerigwyr yn unig, a bydd unigolyn lleyg yn cael ei gynnig a'i ethol gan y lleygwyr yn unig.

51. Os bydd enwebiadau annigonol i lenwi'r nifer ofynnol o leoedd mewn unrhyw etholiad, yna bydd Pwyllgor Sefydlog Cynhadledd yr Esgobaeth yn gwneud y fath enwebiadau o unigolion sy'n fodlon gwasanaethu fel gallai fod yn angenrheidiol.

52. Bydd gwahoddiad i bleidleisio yn electronig yn cael ei anfon i holl aelodau clerigol neu leyg y Gynhadledd fel sy'n briodol. Bydd yr Ysgrifennydd yn cymryd y fath gamau ag sy'n angenrheidiol i sicrhau diogelwch a chyfrinachedd unrhyw bleidlais electronig.

53. Mewn achos o bleidlais gyfartal, bydd yr Ysgrifennydd yn dewis ar hap â llaw neu'n electronig ym mhresenoldeb aelod o'r Pwyllgor Sefydlog i benderfynu ar y mater.

54. Bydd canlyniadau pob etholiad yn cael eu cyhoeddi yng nghyfarfod blynyddol y Gynhadledd ac yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr esgobaeth.

55. Gallai enwau unrhyw ymgeiswyr sy'n aflwyddiannus mewn etholiad gael eu rhoi ar restr atodol i lenwi'r fath swyddogaethau sy'n digwydd dod yn wag a allai godi. Os na ellir llenwi swyddogaeth wag o'r fath o'r rhestr atodol, bydd y Pwyllgor Sefydlog yn gwahodd ceisiadau i unigolion gael eu cyfethol i'r swyddogaeth wag. Bydd unigolion o'r fath yn meddu ar y swyddogaeth tan gyfarfod blynyddol nesaf y Gynhadledd yn unig, pan fydd y swyddogaeth wag yn cael ei llenwi yn y rownd flynyddol o etholiadau.

## ERTHYGL 7: BYRDDAU A PHWYLLGORAU

Pwyllgor Sefydlog

56. Bydd y Gynhadledd yn cyfansoddi Pwyllgor Sefydlog a fydd â'r fath bwerau a roddir iddo gan y Gynhadledd mewn rheoliadau neu drwy benderfyniad.

*(CCiW: IV A.23 (1))*

57. Bydd y Pwyllgor Sefydlog yn rheoli busnes Cynhadledd yr Esgobaeth o ddydd i ddydd, gan gynnwys trefn a busnes cyfarfodydd y Gynhadledd, a materion eraill o'r fath a gyflwynir yn y cyfansoddiad hwn neu yng Nghyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru, neu a allai gael eu dirprwyo iddo o bryd i'w gilydd.

58. Bydd y Pwyllgor Sefydlog yn cydweithredu â'r Esgob ar ran y Gynhadledd mewn unrhyw newid a allai gael ei ystyried o fewn ffiniau unrhyw Ardal Offeiriadaeth neu Archddiaconiaeth yr esgobaeth, a bydd yn adrodd i'r Gynhadledd ac i'r Corff Llywodraethu yn flynyddol pa newidiadau sydd wedi cael eu cynnig a'u gwneud.

*(CCiW: IV A.23 (2))*

Aelodaeth o'r Pwyllgor Sefydlog

59. Mae'n rhaid i Aelodau o'r Pwyllgor Sefydlog fod yn aelodau o Gynhadledd yr Esgobaeth.

60. Bydd nifer yr aelodau lleyg bob yn amser yn fwy na nifer yr aelodau clerigol.

61. Bydd y Pwyllgor Sefydlog wedi'i gyfansoddi o:

(a) Aelodau Ex Officio:
Yr Esgob
Y Deon
Yr Archddiaconiaid
Cadeirydd Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth
Cadeirydd Bwrdd Eiddo'r Esgobaeth

(b) Aelodau etholedig
Dau gynrychiolydd clerigol ar gyfer pob archddiaconiaeth, wedi'u hethol gan glerigwyr yr Archddiaconiaeth.
Chwe chynrychiolydd lleyg etholedig o bob archddiaconiaeth, wedi'u hethol gan aelodau Lleyg y Gynhadledd o'r Archddiaconiaeth

(c) Aelodau cyfetholedig
Hyd at dri o aelodau cyfetholedig fel y cymeradwyir gan aelodau ex officio ac etholedig y Pwyllgor Sefydlog o bryd i'w gilydd.

62. Bydd cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog yn gwneud cworwm pan fydd un rhan o dair o gyfanswm yr aelodau clerigol a nifer gyfartal ac un arall o aelodau lleyg yn bresennol.

63. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Sefydlog yn unigolyn lleyg, wedi'i ethol drwy bleidlais fwyafrifol syml o'r aelodau sy'n bresennol yng nghyfarfod cyntaf y cyfnod o dair blynedd.

64. Bydd aelodau etholedig yn meddu ar y swyddogaeth am gyfnod tair blynedd Cynhadledd yr Esgobaeth y cawsant eu hethol ar ei gyfer, neu tan yr adeg nad ydynt yn aelodau o'r Gynhadledd mwyach. Gall yr aelodau cyfetholedig, a fydd yn gwasanaethu o ddyddiad eu penodiad tan ddiwedd y cyfnod hwnnw o dair blynedd, fod yn lleyg neu'n glerigol, cyn belled nad yw cyfethol unrhyw aelodau clerigol yn arwain i gyfanswm aelodau clerigol y Pwyllgor Sefydlog fod yn fwy na nifer yr aelodau lleyg.

Unigolion a wahoddir i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Sefydlog

65. Gellir gwahodd Arweinwyr Ardal Offeiriadaeth, swyddogion esgobaethol ac unigolion perthnasol eraill i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Sefydlog a chymryd rhan a siarad ynddynt drwy wahoddiad y Cadeirydd.

Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth

66. Bydd y Gynhadledd yn penodi Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth, y bydd ei gyfansoddiad a'i bwerau yn cyd-fynd â Chyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru ac yn cael ei nodi yn y dogfennau perthnasol sy'n creu'r Bwrdd.

*(CCiW: IV A.24)*

67. Nodir aelodaeth Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth yn ei ddogfen lywodraethu.

68. Bydd Adroddiad Blynyddol Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth yn cael ei gyflwyno i'r Gynhadledd, gan gynnwys datganiad o gyfrifon wedi'i archwilio, cyllideb o wariant angenrheidiol a rhagolwg ariannol ar gyfer y flwyddyn yn syth ar ôl blwyddyn y gyllideb o leiaf.

69. Bydd Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth yn cymryd y camau angenrheidiol i godi'r arian sy'n ofynnol i hyrwyddo a chynorthwyo dibenion yr Eglwys yng Nghymru ac Esgobaeth Bangor a bydd yn derbyn ac yn cyfrifyddu ar gyfer yr holl arian a godir yn y modd hwn.

70. Mae Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth wedi'i rymuso i wneud y fath reoliadau y mae'n ei gredu sy'n addas i sicrhau penderfyniad a dosbarthiad Cronfa Offeiriadaeth yr Esgob, a bydd pob rheoliad o'r fath yn rhwymo Ardaloedd Offeiriadaeth.

71. Bydd Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth yn gwneud darpariaeth ar gyfer y swm i'w ddyrannu i wahanol feysydd cenhadaeth a gweinyddiaeth yr eglwys ac yn penderfynu ar y swm hwn, ac yn gwneud y fath grantiau y mae o'r farn sy'n addas.

72. Dyletswydd cyrff sy'n derbyn neu sydd wedi derbyn arian gan Fwrdd Cyllid yr Esgobaeth fydd adrodd i Gynhadledd yr Esgobaeth yn flynyddol, ac i Fwrdd Cyllid yr Esgobaeth ar gais.

Bwrdd Persondai'r Esgobaeth

73. Bydd Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth yn penodi Bwrdd Persondai'r Esgobaeth a fydd yn gyfrifol am:

(a) fod â goruchwyliaeth gyffredinol a rheolaeth o bersondai yn yr esgobaeth, a

(b) sicrhau bod unrhyw atgyweiriadau neu waith a awdurdodwyd yn briodol i gael ei wneud i bersondai o'r fath neu yn eu cyswllt yn cael eu cyflawni'n briodol.

*(CCiW: IV A.26)*

74. Bydd y Bwrdd Persondai yn ddim llai na chwech o ran nifer a bydd wedi'i gyfansoddi o nifer gyfartal o aelodau clerigol a lleyg y mae'n rhaid iddynt fod yn gymwys i fod yn aelodau o Gynhadledd yr Esgobaeth. Bydd aelodau yn meddu ar y swyddogaeth am dair blynedd i ddyddiad eu penodiad ond byddant yn gymwys i gael eu hailbenodi.

*(CCiW: IV A.27)*

75. Ni fydd methiant Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth i benodi nifer yr aelodau o'r Bwrdd Persondai a ragnodir ym mharagraff 75 yn atal y Bwrdd Persondai rhag bwrw ymlaen â chyflawni busnes nac yn annilysu ei benderfyniadau.

*(CCiW: IV A.27)*

76. Bydd Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth yn llenwi swyddogaeth sy'n digwydd dod yn wag yn aelodaeth y Bwrdd Persondai a bydd unigolyn a benodir i lenwi swyddogaeth wag o'r fath tan i gyfnod tair blynedd penodiad yr aelodau y mae ef neu hi yn ei ddisodli yn dod i ben.

*(CCiW: IV A.27)*

77. Byrddau neu Bwyllgorau eraill
Gall y Pwyllgor Sefydlog sefydlu unrhyw fyrddau neu bwyllgorau eraill y gallai benderfynu o bryd i'w gilydd eu bod yn fuddiol ar gyfer hyrwyddo bywyd a thyst, neu genhadaeth ac offeiriadaeth yr Esgobaeth, ac ar sail y fath delerau y mae'n eu hystyried sy'n addas. Bydd y Pwyllgor Sefydlog yn cymeradwyo cylchoedd gorchwyl cyrff o'r fath, a fydd yn adrodd i Gynhadledd yr Esgobaeth yn ei chyfarfod nesaf ac ym mhob cyfarfod blynyddol dilynol tan ei ddiddymiad.

## ERTHYGL 8: AMRYWIOL a DIWYGIAD

78. Gall unrhyw unigol sy'n ystyried ei hun wedi'i dramgwyddo gan weithred Cynhadledd yr Esgobaeth, yn achos eiddo a ddelir o dan y Gynhadledd neu a weinyddir ganddi, apelio i'r Llys Taleithiol, y bydd ei benderfyniad yn derfynol.

*(CCiW: IV A.29)*

79. Gellir newid unrhyw ddarpariaeth neu reoliad yn y cyfansoddiad hwn, nad yw'n destun darpariaeth Cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru, drwy bleidlais â mwyafrif o ddwy ran o dair o Gynhadledd yr Esgobaeth, cyn belled ag y bo diwygiad o'r fath wedi cael ei gyflwyno yn ysgrifenedig i gyfarfod y Pwyllgor Sefydlog cyn cyfarfod Cynhadledd yr Esgobaeth dan sylw, ac a fydd yn cael ei anfon ymlaen ganddyn nhw i'r Gynhadledd ynghyd ag argymhelliad gan y Pwyllgor Sefydlog ynghylch ei rinweddau neu ddiffygion.

80. Bydd unrhyw newid i'r cyfansoddiad hwn sy'n ofynnol o ganlyniad uniongyrchol i ddiwygiad i Gyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru yn cael ei gymeradwyo gan fwyafrif syml o'r Pwyllgor a'i adrodd i gyfarfod dilynol Cynhadledd yr Esgobaeth.

## ATODIAD I: RHEOLAU SEFYDLOG O GYNHADLEDD ESGOBAETH BANGOR

1. Bydd holl gyfarfodydd Cynhadledd yr Esgobaeth yn agor ac yn cloi gyda gweddi.

2. Gall unrhyw aelod annerch y Gynhadledd yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

3. Pan fydd y Llywydd wedi cymryd y Gadair, ni fydd unrhyw aelod yn parhau i sefyll, ac eithrio wrth annerch y cadeirydd.

4. Pan fydd yn bresennol yn y Gynhadledd, gall y Llywydd benodi un o'r Is-lywyddion i gadeirio'r Gynhadledd yn ei le.

5. Pan fydd dau neu fwy o aelodau yn codi ar yr un pryd i annerch y Cadeirydd, y Cadeirydd fydd yn penderfynu pa un ohonynt fydd yn siarad gyntaf.

   (a) Ni fydd arweithiau a wneir gan gynigydd ac eilydd cynnig yn hwy na deg munud. Gall y cynigydd hefyd hawlio pum munud i ymateb.

   (b) Ni fydd pob araith arall yn hwy na phum munud.

   (c) Gall y Cadeirydd, gyda chaniatâd y Cyfarfod, ymestyn neu leihau'r amser ar gyfer araith.

   (d) Ni fydd yr adran hon yn berthnasol i Anerchiad y Llywydd.

6. Ni fydd unrhyw aelod yn cael siarad mwy nag unwaith ar yr un cwestiwn, ac eithrio mewn esboniad neu i godi pwynt o drefn, oni bai mai cynigydd cynnig yn arfer yr hawl i ymateb yw'r aelod hwnnw.

7. Pryd bynnag y bydd y Cadeirydd yn codi yn ystod dadl, bydd unrhyw aelod sy'n siarad neu'n cynnig siarad yn eistedd i lawr ar unwaith.

8. Os, yn ystod dadl, bydd 30 o aelodau yn codi yn eu lleoedd ac yn mynnu bod pleidlais yn cael ei chynnal nawr, bydd y Cadeirydd yn gofyn y cwestiwn hwnnw i'r cyfarfod i gael penderfyniad trwy godi dwylo.

9. Os bydd y cyfarfod yn cymeradwyo'r alwad am bleidlais, bydd y Cadeirydd yn cynnig i'r cynigydd gyntaf yr hawl i ymateb ac yna symud yn syth i'r bleidlais.

10. Dim ond busnes a gyflwynir ar y papur agenda fydd yn cael ei drafod. Bydd yr agenda yn cael ei hanfon i holl aelodau Cynhadledd gyda'r hysbysiad am gyfarfod ac adroddiadau o leiaf pedwar diwrnod ar ddeg cyn y cyfarfod.

11. Mewn cyfarfod ac eithrio Cyfarfod Arbennig, gall y Llywydd, yn ôl ei ddisgresiwn, ganiatáu eitemau eraill o fusnes rheolaidd eu natur nad ydynt yn ymddangos ar y papur agenda.

12. Cwestiynau a chynigion:

(a) Os bydd unrhyw aelod yn dymuno gwneud cynnig ac eithrio ar gyfer Cyfarfod Arbennig, dylid ei anfon i Ysgrifennydd y Gynhadledd mewn pryd i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Sefydlog yn ei gyfarfod yn syth cyn cyfarfod y Gynhadledd.

(b) Bydd pob gwelliant yn ysgrifenedig, wedi'i lofnodi gan y cynigydd ac mae'n rhaid ei roi i Ysgrifennydd y Gynhadledd, cyn y cyfarfod os yw'n bosibl.

(c) Mae'n rhaid cyflwyno unrhyw gwestiwn sy'n gofyn am ateb yn ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Gynhadledd o leiaf saith diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod.

13. Ni fydd unrhyw welliant i welliant yn dderbyniol.

(a) Nid oes angen darllen cynnig sydd wedi ei argraffu ar y papur agenda cyn ei wneud.

(b) Bydd pob cynnig neu welliant arall yn cael ei ddarllen yn syth cyn i'r bleidlais arno gael ei chynnal.

14. Pan elwir am bleidlais yn ôl urddau, bydd rhifwyr Urddau'r Clerigwyr a'r Lleygwyr yn cael eu penodi gan y Llywydd neu'r Cadeirydd.

15. Bydd y Pwyllgor Sefydlog yn cael ei awdurdodi i weithredu ar ran Cynhadledd yr Esgobaeth, rhwng ei chyfarfodydd mewn unrhyw fater y gallai'r Esgob ystyried sy'n angenrheidiol, a bydd adroddiad yn cael ei wneud ar y mater hwnnw i'r Gynhadledd yn ei chyfarfod nesaf.

16. Bydd cofnod o bresenoldeb yn cael ei gadw.

17. Ni fydd cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro yn dderbyniol oni bai fod mwyafrif o'r aelodau sy'n bresennol yn codi i'w gefnogi.

18. Bydd y Rheolau Sefydlog hyn yn cael eu hargraffu a'u dosbarthu gyda'r agenda ym mhob un o gyfarfodydd Cynhadledd yr Esgobaeth.